**PAPUR 'E'**

| **13.1** | |
|---|---|
| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
| **PWYLLGOR:** | Cynllunio a Gorchmynion |
| **DYDDIAD:** | 3 Tachwedd 2010 |
| **ADRODDIAD GAN:** | Rheolwr Rheoli Cynllunio |
| **PWRPAS:** | Atgoffa’r aelodau mai un o’r camau gweithredu y cytunwyd arnynt ynh Nghynllun Gwella 2010 ar gyfer y Broses Gwneud Penderfyniadau Cynllunio yw adolygiad blynyddol o’r penderfyniadau gan y Pwyllgor Cynllunio. |
| **GWEITHREDU:** | Nodi’r uchod a’r bwriad i gynnal yr adolygiad ar 17 Tachwedd 2010. |

## 13.2 Materion Eraill

**1.0 Cyflwyniad**

1.1 Mae'r Cynllun Gwella'r Gwasanaeth Cynllunio yn gofyn am gyflwyno adroddiad monitro chwarterol ar waith swyddogaeth orfodi'r Gwasanaeth. Gwelir hyn fel ymateb rhesymegol i'r cytundeb gafwyd mewn seminar i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio, sef bod adroddiad cyffredinol am weithgaredd gorfodaeth yn cael ei gyflwyno i'r aelodau.

1.2 I bob pwrpas, bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar berfformiad y tîm dros flwyddyn ariannol 2009-10 ac yn rhoi diweddariad ar y lefelau perfformiad presennol.

**2.0 Targedau Perfformiad**

2.1 Y prif darged perfformio y mae'n rhaid i'r tîm weithio tuag ato yw bod raid i 60% o'r holl gwynion fod wedi'u cau o fewn 12 wythnos i dderbyn y gwyn wreiddiol.

2.2 Roedd y perfformiad cyffredinol ym mlwyddyn 2009-10 yn 46% ac mae'r tabl isod yn dadansoddi'r perfformiad unigol i bob un o'r tri maes swyddog.

| Cyfansymiau Blynyddol (Ebrill 09 – Mawrth 10) | Maes Swyddog | | | Cyfansymiau Tîm |
|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | |
| Achosion agorwyd | 94 | 79 | 84 | **257** |
| Achosion gaewyd | 95 | 79 | 17 | **191** |
| Deliwyd mewn 12 wythnos | 55 | 26 | 7 | **88** |
| % ddeliwyd – 12 wythnos | 58% | 33% | 41% | **46%** |
| Achosion yn parhau | 76 | 95 | 117 | **288** |

Roedd perfformiad ym Maes 1 ychydig yn is na'r ffigwr targed, tra roedd y meysydd eraill yn dangos gwahaniaethau mawr rhwng niferoedd yr achosion gafodd eu cau a'r rhai gafodd eu cau o fewn 12 wythnos. Gellir dweud mai'r rhesymau am y problemau a brofwyd yn y ddau faes olaf oedd:

(a) Llawer o achosion wedi cronni a etifeddwyd ym Maes 2; a
(b) Diffyg swyddog i ddelio â Maes 3 am y cyfan o'r cyfnod wedi'i ddeilydd blaenorol y swydd adael.

2.3 Mae'r achosion sydd wedi cronni yn y ddau faes hwn yn parhau yn eang ac fe fyddant yn parhau i gael effaith ddrwg ar ffigyrau am beth

amser tra bod yr achosion yn derbyn sylw ac yn ceisio cael eu datrys. Dyma'r data perfformiad presennol am y flwyddyn ariannol hon:

| **Cyfansymiau Blynyddol (Ebrill 09 – Mawrth 10)** | **Maes Swyddog** | | | **Cyfansymiau Tîm** |
|---|---|---|---|---|
| | **1** | **2** | **3** | |
| Achosion agorwyd | 28 | 37 | 45 | **110** |
| Achosion gaewyd | 36 | 20 | 82 | **138** |
| Deliwyd mewn 12 wythnos | 17 | 9 | 29 | **55** |
| % ddeliwyd – 12 wythnos | 47% | 45% | 35% | **40%** |
| Achosion yn parhau | 68 | 112 | 80 | **260** |

**3.0 Rhybuddion, Apeliadau ac Erlyn**

3.1 Yn ystod blwyddyn ariannol 09-10, fe wnaeth y tîm roi allan 5 rhybudd gorfodaeth, a chafwyd apêl yn erbyn 3 gyda dwy apêl yn cael eu gwrthod ac fe ddisgwylir am benderfyniad gydag un arall. Ni ryddhawyd unrhyw rybuddion yn y flwyddyn ariannol hon er bod disgwyl am gyfarwyddiadau mewn 6 achos.

3.2 Aeth dau achos ymlaen i erlyniad o ganlyniad i fethiant perchennog y tir i gydymffurfio gyda gofynion y rhybudd. Canlyniad un o'r achosion oedd dirwy o £1,000 ar berchennog y tir lle'r oedd y camwedd yn ymwneud â storio eitemau o sgrap ar dir. Efallai yn wir y bydd yr achos hwn yn dychwelyd i'r llys yn y dyfodol agos. Mae achos arall wedi'i ohirio ar hyn o bryd hyd nes ceir canlyniad apêl i'r uchel lys.

**4.0 Casgliadau**

4.1 Mae'r tîm wedi profi cryn anawsterau wrth geisio cyflawni ei dargedau perfformiad. Fodd bynnag, mae'r prif reswm am hyn yn ymwneud â diffyg staff mewn dau o'r tri maes swyddog. Er bod staff llawn yn yr adran ers Ebrill 2010, bydd y perfformiad yn parhau i fod ar ôl oherwydd yr achosion sydd wedi cronni. Fod bynnag, mae'r swmp gwaith hwn yn derbyn sylw yn barhaus.

4.2 Mae'r tîm yn parhau i berfformio'n dda mewn apeliadau ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y penderfyniadau apêl sy'n cefnogi'r rhybuddion gorfodaeth a roddwyd allan a thrwy hynny yn cyfiawnhau'r gweithredu a wnaed. Fe ddilynwyd ymlaen gyda hyn i'r cyfnod nesaf lle bu'r tîm yn llwyddiannus yn cael erlyniadau am fethiant i gydymffurfio gyda rhybuddion.